**Rhif: 1**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C21/0587/14/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **10/09/2021** |
| **Math y Cais:** | **Amrywio Amod** |
| **Cymuned:** | **Caernarfon** |
| **Ward:** | **Peblig** |
| **Bwriad:** | **Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio Amod 8 ar ganiatâd cynllunio C08A/0209/14/LL (Estyniad i'r safle ailgylchu presennol, codi adeilad trosglwyddo gwastraff newydd, cyfleusterau parcio a chodi sgrin perimedr 5 metr o uchder) i gynyddu'r uchafswm trwygyrch flynyddol o wastraff i 125,000 tunnell ar gyfradd uchaf o 1,200 tunnell y dydd a dim mwy na 2,800 tunnell yr wythnos** |
| **Lleoliad:** | **Gwynedd Skip Hire, Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD** |
| **Crynodeb o'r Arymhelliad:** | **DIRPRWYO'R HAWL I GANIATAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais yw hwn i newid amod 8 ar ganiatâd cynllunio C08A/0209/14/LL sydd yn weithredol ar safle ailgylchu Gwynedd Skips, Caernarfon er mwyn cynyddu'r uchafswm mewnbwn flynyddol o wastraff i 125,000 tunnell ar gyfradd uchaf o 1,200 tunnell y dydd a dim mwy na 2,800 tunnell yr wythnos. Ni chynigir unrhyw newidiadau adeiladol na gweithredol eraill i'r datblygiad.

1.2 Mae'r safle wedi'i sefydlu ar Ystâd Ddiwydiannol yng Nghibyn ers dros 20 mlynedd ac yn darparu gwasanaeth trosglwyddo ac ailgylchu gwastraff masnachol yn unol â thelerau'r caniatâd presennol C08A/0209/14/LL sef, estyniad i safle ailgylchu presennol, codi adeilad trosglwyddo gwastraff newydd, cyfleusterau parcio a chodi sgrin perimedr 5 metr o uchder. Mae'r gwastraff a derbyniwyd gan y safle yn cynnwys gwastraff a gesglir mewn sgips sef, gwastraff t, gwastraff masnachol a diwydiannol a gwastraff o waith glanhau ffyrdd. Mae'r safle hefyd yn derbyn rhai eitemau a ddisgrifir fel gwastraff peryglus i gynnwys batris ceir, llenni asbestos wedi'i bondio â sment a gwastraff drydan.

1.3 Mae'r cyfleuster wedi gweithredu'n llwyddiannus i'r graddau bod y galw gan gwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid yn tyfu ar gyfradd a fyddai'n fwy na'r hyn a osodir o dan amod cynllunio ac felly ceisir am gynnydd yn y mewnbwn gwastraff a ganiateir. Mae gwastraff sy'n cael ei gludo i'r safle yn cael ei ddidoli ar gyfer ailgylchu neu ei ailddefnyddio. Ar hyn o bryd mae 50% o'r deunydd a dderbynnir yn cael ei ailgylchu a bydd y cynnydd a fwriedir yn cyfrannu at ganran y deunyddiau i'w hailgylchu. Mae galw cynyddol am gasgliadau gwastraff gan gynnwys gwastraff adeiladu a dymchwel, gwastraff tŷ a ffynonellau masnachol ond hefyd, mae disgwyl i gynnydd mewn twristiaeth barhau a bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y nifer o wastraff sy'n codi.

1.4 Mae uwchraddiad diweddar i'r orsaf trosglwyddo gwastraff wedi arwain at gapasiti ychwanegol sef, gwastraff adeiladu a dymchwel yn bennaf. Mae contract gyda safleoedd ynni o wastraff yng Nghymru a Lloegr yn golygu cyflenwad deunydd sy'n deillio o brosesu gwastraff o ffynonellau adeiladu, cartrefi a masnachol a rhagwelir y bydd y llif gwastraff hwn yn parhau. Mae angen mwy o gapasiti hefyd i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn cynhyrchu a dosbarthu biomas i weithfeydd biomas lleol.

1.5 Mae'r safle gyda'r capacity i ehangu a fuasai'r datblygiad a fwriedir yma yn sicrhau fod cyfleuster presennol yn parehau i ddidoli a phrosesu deunyddiau yn gynaliadwy a chyfrannu at gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru i ddargyfeirio gwastraff o dirlenwi.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

Polisi Strategol PS 1: Yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig

Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

Polisi Strategol PS 5: Datblygu cynaliadwy

Polisi Strategol PS 6: Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfle ar gyfer Economi Ffyniannus

Polisi Strategol PS 21: Rheoli Gwastraff

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn Nodedig i Gymeriad y Dirwedd Leol

GWA 1: Rheoli Gwastraff

GWA 2: Rheoli Gwastraff a Safleoedd Dynodedig

Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Cynaliadwy 2019

Canllaw Cynllunio Atodol - Cymeriad y Tirwedd 2009

**2.4 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi’u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021),

Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040,

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMS) 2012

Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a’r Gymraeg

Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff

Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu economaidd

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C98A/0264/14/LL, Gorffennaf 16eg, 1998- CANIATÁU adeiladu swyddfa, mynedfa newydd a gorsaf trosglwyddo gwastraff, Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon,

3.2 C01A/0249/14/LL, Tachwedd 12fed, 2001- CANIATÁU i newid amodau cynllunio 2, 3 a 4 o ganiatâd cynllunio rhif. C98A/0264/14/LL i ail-ddatblygu'r safle fel gorsaf trosglwyddo gwastraff i gynnwys gosod peiriant malurio Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon,

3.3 C02A/0521/14/LL, Medi 15fed, 2003- CANIATÁU dileu amod 3 ar ganiatâd rhif. *C01A/0249/14/LL* i leoli'r peiriannau rhidyllu a malurio yn barhaol ar y safle Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon,

3.4 C02A/0522/14/LL, Tachwedd 7fed, 2002- CANIATÁU adeiladu sied i gadw peiriannau ac i storio deunyddiau yn gysylltiedig â'r orsaf trosglwyddo gwastraff presennol Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon,

3.5 CO6A/0360/14/LL, Ionawr 16eg 2007 - GWRTHOD estyniad i'r safle ailgylchu presennol i gynnwyd adeiladu adeilad trosglwyddo gwastraff Newydd Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon,

3.6 C07A/0054/14/LL, CANIATAU 1af Mai 2007 - ymestyn y safle ailgylchu presennol, codi adeilad trosglwyddo gwastraff Newydd, cyfleusterau parcio a chodi sgrin perimedr 5 metr o uchder Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon,

3.7 C08A/0209/14/LL, Mai 16th 2008 - CANIATAU amrywio amod 1 o Caniatad Cynllunio C07A/0054/14/LL i ganiatáu estyniad i gwblhau y datblygiad o ymestyn y safle ailgylchu presennol, codi adeilad trosglwyddo gwastraff Newydd, cyfleusterau parcio a chodi sgrin perimedr 5 metr o uchder Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon,

3.8 C12/1244/14/LL, 30ain Tachwedd 2012 – CANIATAU estyniadau i'r modurdy presennol ar gyfer loriau a pheiriannau cloddio Ystâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi'r cais, ar yr amod fod y broblem o ran loriau yn ciwio'n cael ei ddatrys, a bod sylwadau Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn cael eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim Ymateb |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim gwrthwynebiad i'r cais, ond yn cynnig y sylwadau canlynol;<br>• Nodwn nid oes gwybodaeth am rhywogaethau a warchodir yn y cais, ac felly rydym yn cymryd bod eich Awdurdod wedi |

sgrinio'r cais a wedi barnu nid oes tebygolrwydd rhesymol bod rhywogaethau a warchodir yn bresennol ar y safle.

- Atgoffwn yr ymgeisydd am y ffaith mai ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod yn cael yr holl drwyddedau/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w ddatblygiad, yn ogystal â chaniatâd cynllunio. Cyfeiriwch at ein gwefan am fanylion pellach. Dylai'r ymgeisydd neu'r gweithredwr gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ynghylch cais am Drwydded Amgylcheddol

| | |
| --- | --- |
| Scottish Power: | Dim Ymateb |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Y Gwasanaeth wedi derbyn cwynion yn honni fod arogl yn dod o'r safle ac os mae'r safle yn ehangu fydd yr arogl yma yn mynd yn waeth. Os oes bwriad ehangu'r safle, ddyle'r cwmni gwneud asesiad arogleuon efo'r cais. |
| Gwasanaeth Tân ac Achub | Nid oes gan yr Awdurdod Tân unrhyw sylwadau i'w roi ynglŷn â mynedfa i gerbydau Tân a chyflenwad dŵr. |
| HSE | Dim Ymateb |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle, rhybudd yn y wasg a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daw'r cyfnod hysbysebu i ben ar 14 Hydref 2021 a derbyniwyd 1 llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:<br>• Existing pollution issues associated with the site.<br>• Consistent smell pollution emitting from the site and should be investigated immediately and closed if the existing pollution issues are not dealt with. |

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 O ran gosod targedau ar gyfer rheoli gwastraff cartref, diwydiannol a masnachol, mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn mynnu y dylai o leiaf 70% o'r gwastraff o'r fath gael ei ailddefnyddio ac / neu ei ailgylchu erbyn 2025. Mae'r cais yma ar gyfer ehangu mewnbwn cyfleuster fuasai'n cyfrannu at yr hyn mae'r ardal yn ei ailgylchu a lleihau'r gwastraff sydd yn cael ei dirlenwi.

5.2 Cam canolraddol ar y ffordd tuag at 'ddyfodol diwastraff' yw 2025, a ddiffiniwn fel pwynt terfyn dyheadol lle mae pob gwastraff a gynhyrchir yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd, heb fod angen unrhyw dirlenwi nac adfer ynni. Erbyn 2025, byddwn wedi lleihau gwastraff yn sylweddol a byddwn yn rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o'n hadnoddau gwerthfawr. Golyga hyn y byddwn yn ailgylchu cymaint ag y gallwn ac yn lleihau'r swm o wastraff gweddilliol a gynhyrchir, ac yn dileu tirlenwi hyd y gallwn. Erbyn 2050 byddwn

yn lleihau effaith gwastraff yng Nghymru nes ei bod o fewn ein terfynau amgylcheddol (a ddiffiniwn fel lefelau gwastraff Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, sef 65% yn llai o wastraff nag a gynhyrchwn yn awr, yn fras), gan anelu at gael gwared â gwastraff gweddilliol yn raddol trwy gamau cryfach i atal gwastraff a defnyddio a chynhyrchu'n gynaliadwy fel bod yr unig wastraff a gynhyrchir yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu

5.3 Ar gyfer pob math o wastraff, mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 yn ei gwneud yn ofynnol i nodi lleoliadau addas ar gyfer datblygu rheoli gwastraff yn gynaliadwy mewn cynlluniau datblygu yn ogystal â gosod meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau o'r fath, gan gydnabod mai'r lleoliadau mwyaf priodol fydd y rhai â'r lleiaf effaith andwyol ar y boblogaeth leol a'r amgylchedd gyda'r potensial gorau i gyfrannu at fframwaith seilwaith eang. Adlewyrchir gofyniad o'r fath ym mholisïau'r cynllun datblygu lleol i hyrwyddo dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn seiliedig ar yr hierarchaeth wastraff. Mae gofynion 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a 'Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff' hefyd yn amlinellu'r angen i ddatblygu rhwydwaith cynaliadwy o gyfleusterau trin gwastraff, gan bwysleisio ar yr angen i ddarparu cyfleusterau i ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

5.4 Mae safle rheoli gwastraff Gwynedd Skip Hire wedi'i leoli ar Ystad Ddiwydiannol ac sydd wedi'i warchod ar fap cynigion y Cynllun Datblygu lleol, ar gyfer defnydd cyflogaeth B1, B2 & B8 yn unol â pholisi CYF 1 sef, Canolfan Gwasanaethau Trefol. Nid yw'r safle wedi'i leoli mewn ardal sy'n agored i'r cyhoedd ac nid yw'n weladwy o lawer o fannau yn y cyffiniau. Rhaid felly ystyried egwyddor y cynnig yn erbyn GWA 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae Polisi GWA 2 (Rheoli Gwastraff a Safleoedd a Ddyrannwyd) yn nodi y dylid cymeradwyo cynigion rheoli gwastraff ar safleoedd priodol ar yr amod bod y cynnig yn unol â'r hierarchaeth wastraff a bod angen amlwg am y datblygiad a gefnogir gan Asesiad Cynllunio Gwastraff.

5.5 Felly, byddai angen ystyried y cynnig yn erbyn polisi GWA 2 'Rheoli Gwastraff a Safleoedd Dynodedig' lle dylid dangos y gellir cwrdd â'r holl feini prawf canlynol: -

1. Nid oes safleoedd dynodedig ar gael, neu maent yn anaddas ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig.
2. Nid oes safleoedd addas oddi mewn i'r ffin ddatblygu.
3. Bydd y cynnig yn ymgorffori mesurau i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd ac iechyd ac amwynder y boblogaeth leol.
4. Mae graddfa a natur y cynnig yn briodol o ran y safle a'r ardal o'i amgylch.
5. Ni fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd naturiol a gwerth treftadaeth yr ardal.
6. Nad yw'r datblygiad na'r traffig cysylltiedig yn arwain at aflonyddwch annerbyniol i'r gymuned leol yn sgil llygredd sŵn, arogl, cryndod neu aer.

5.6 Rhaid i unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygiad rheoli gwastraff gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion polisi GWA 2 ond yn y bôn, dylai asesiad cynllunio gwastraff yn unol â gofynion TAN 21 (Gwastraff) ddarparu cyfiawnhad cadarn gyda thystiolaeth gefnogol o angen amlwg am y datblygiad.

5.7 Credir fod yr Asesiad Cynllunio Gwastraff a gyflwynwyd gyda'r cais yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Mae'r bwriad a gyflwynwyd gyda'r cais yn dderbyniol ran egwyddor ac yn cydymffurfio gyda pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol, nad oes gwrthdaro rhan egwyddor o drin gwastraff yn gynaliadwy. Mae'r datblygiad felly'n cydymffurfio â pholisïau PS5, PS22, & GWA2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Mwynderau gweledol**

5.8 Ni chynigir unrhyw newidiadau adeiladol na gweithredol eraill i'r safle, dim ond cais i gynyddu graddfa mewnbwn o wastraff drwy’r safle. Mae’r datblygiad ar gyfer codi adeilad 14 metr o uchder gyda ffens 5 metr o uchder o amgylch y safle eisoes wedi’i weithredu’n unol â chynlluniau’r cais.

5.9 Nid oes unrhyw ystyriaethau gweledol ychwanegol yn sgil y cais hwn, ac felly mae’r datblygiad yn addas i’w lleoliad ar ystâd ddiwydiannol ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi PCYFF 3 (dylunio a siapio lleoedd) o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.10 Nid yw’r awdurdod cynllunio’n ymwybodol o unrhyw gwynion yn sgil gweithredu’r safle o ddydd i ddydd, ond o ystyried natur datblygiadau gwastraff, rhaid sicrhau na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar fwynderau preswyl, eiddo a busnesau cyfagos. Ni fydd unrhyw newid i oriau gwaith y safle trosglwyddo gwastraff presennol sef, 07.30 - 20.00 Llun i Gwener & 07.30 - 17.00 ar y Sadwrn. Mae gweithgareddau trosglwyddo gwastraff wedi parhau ar y safle ers 1998 ac mae’r busnes wedi ymateb i gynnydd sylweddol am y galw am ddeunyddiau ailgylchu ac mae’r amodau cynllunio sydd ynghlwm i'r caniatâd yn hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar gyfer y gweithgareddau’r safle.

5.11 Mae paragraff 3.26 o TAN 21 (Gwastraff) yn nodi; “….. *dylid cymryd gofal arbennig i osgoi lleoliadau lle gallai cyfleusterau gwastraff newydd neu rhai sydd yn cael eu hymestyn fod yn anghydnaws â'r defnyddiau tir presennol*”. Gellid rheoli sŵn ac ansawdd aer yn effeithiol o dan amodau cynllunio ond hefyd yn unol â thrwydded amgylcheddol dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Fe gyflwynwyd arolwg sŵn penodol fel y gall yr awdurdod cynllunio lleol ac ymgynghorwyr arbenigol asesu effeithiau datblygiad newydd ar yr amgylchedd.

5.12 Yn sgil y cais presennol i gynyddu’r mewnbwn o wastraff drwy’r safle, mae asesiad o effeithiau unrhyw niwsans wedi'u diweddaru gan gynnwys mesuriadau rheoli llwch sŵn, cludiant, sbwriel ac arogleuon yn ogystal â gweithdrefniadau i ddelio ag unrhyw gwynion a dderbyniwyd. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y cais, nid oedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru unrhyw wrthwynebiad ac fod y safle hefyd yn gweithredu’n unol ag amodau ynghlwm i’r drwydded amgylcheddol berthnasol. Bwriedir adolygu a diweddaru sgôp yr amodau rheoli sŵn, llwch ac arogleuon i gydymffurfio â’r manylion lliniaru a gyflwynwyd.

5.13 Rhaid cofio fod y safle wedi’i leoli ar ystâd ddiwydiannol gydag amryw o fusnesau eraill gan gynnwys gweithrediadau isadeiledd Rheoli gwastraff y Cyngor, sy’n cyfrannu at lefelau sŵn y stad. Mae’r asesiad sŵn yn cadarnhau na fydd bwriad i gynyddu’r hynny o wastraff drwy’r safle’n achosi lefelau sŵn i’r eithaf dros ben 67db $L_{AEQ,1h}$ yn yr eiddo sensitive agosaf (Hen Ffermdy Lôn Hen Felin), ond mewn gwirionedd, na fydd lefelau sŵn y datblygiad gyda datblygiadau eraill y stad yn debygol o beri niwed i fwynderau preswyl yr ardal.

5.14 Nid oes tystiolaeth fod y gweithgareddau presennol yn peri niwed i drigolion na busnesau’r ardal. Bwriad y datblygiad yw cynyddu’r mewnbwn o wastraff er mwyn anelu at gyfraddau ailgylchu uwch. Mae’r cais yn cynnwys mesuriadau lliniaru ar gyfer unrhyw effaith andwyol ar fwynderau busnesau cyfagos. Ystyrir felly na fuasai’r gweithgareddau sy’n gysylltiedig â derbyn, prosesu a dosbarthu cynnyrch gwastraff ar y safle yma’n cael effaith andwyol ar fwynderau preswyl yr ardal ac mae’r datblygiad felly’n cydymffurfio â Pholisïau GWA 2 & PCYFF 2 o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.15 Cais yw hwn i newid amod 8 ar ganiatâd cynllunio C08A/0209/14/LL sydd yn weithredol ar safle ailgylchu Gwynedd Skips, Caernarfon er mwyn cynyddu’r uchafswm mewnbwn flynyddol o wastraff i 125,000 tunnell ar gyfradd uchaf o 1,200 tunnell y dydd a dim mwy na 2,800 tunnell yr wythnos.

5.16 Mae symudiadau cerbydau lori/fan ar gyfartaledd oddeutu 100 y dydd a 500 yr wythnos. O ganlyniad i'r cynnydd mewn tunelledd a geisir gan y cais hwn, rhagwelir y bydd symudiadau cerbydau yn cynyddu i uchafswm o 160 y dydd ac 800 yr wythnos. Fodd bynnag, gan fod y safle wedi'i leoli ar ystâd ddiwydiannol sydd â mynediad digonol i'r ffordd, ni fydd gan y cynnydd hwn unrhyw oblygiadau o ran diogelwch priffyrdd na niwsans sŵn. Ran y math o symudiadau cerbydau, fydd 75% yn lorïau sgip, 10% cerbydau cymalog a 15% cerbydau trydydd parti.

5.17 Fe gyflwynwyd sylwadau blaenorol gan Wasanaeth Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn mynegi pryderon fod lorïau sgip a lorïau cymalog yn ciwio yn rheolaidd ar hyd Lôn Hen Felin gan achosi rhwystr i draffig arall sy'n teithio trwy'r ystâd ddiwydiannol ond hefyd yn achosi difrod i'r droedffordd heibio'r safle cais. Fe gynghorwyd i adolygu’r trefniadau ar gyfer derbyn gwastraff yn ogystal â gweithredu mesurau addas i atal ciwio HGV rhag achosi rhwystr ar y ffordd gyfagos a rhag achosi difrod parhaus i droedffyrdd y ‘stad. Cynghorir adolygiad o drefniadau parcio staff hefyd i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer unrhyw gynnydd.

5.18 Mae datganiad y cais a’r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn cadarnhau fod darpariaeth parcio digonol ar gyfer 35 o weithwyr y safle a bod lle ar gyfer 50 o geir o fewn cwrtil y swyddfa a’r maes parcio ychwanegol sydd wedi’i leoli oddi ar Lon Hen Felin.

5.19 Mae’r ddarpariaeth parcio wedi’i ddangos ar gynllun a gyflwynwyd gyda’r manylion ychwanegol ond yn ogystal, mae gan y cwmni iard ddalfa ar ochr bellaf yr ystâd ddiwydiannol lle mae cerbydau cymalog yn parcio nes eu bod yn cael eu galw i'r brif iard pan fydd yn glir. Mae’r Cwmni hefyd yn bwriadu cynnal sgyrsiau ‘blwch offer’ ychwanegol gyda staff yn ôl yr angen a bydd yn adolygu’r cynllun rheoli traffig yn unol â hynny os oes angen.

5.20 Credir felly fod y datblygiad yn ymateb i anghenion Polisi TRA 4 (rheoli effeithiau trafnidiaeth), a Pholisi TRA 2 (safonau parcio) o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Materion cynaliadwyedd**

5.21 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru lle; “golyga datblygu cynaliadwy'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu gynaliadwy, sydd â’r nod o gyflawni’r nodau llesiant”, ac “mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy”. Hefyd, mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwyedd y cais hwn yn unol â'r nod o ddatblygu cynaliadwy yn unol â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.

**Yr economi**

5.22 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1 – B8 ond yn cyfrif am ran o’r gweithgaredd yn yr economi.

Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach; dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad. Mae'r safle'n cyflogi 35 o weithwyr ac mae'r bwriad felly'n cydymffurfio â Pholisi PS13 (Darparu Cyfle ar gyfer Economi Ffyniannus) o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.23 Mae Datganiad Iaith wedi'i gyflwyno gyda'r cais yn unol â Pholisi PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r canllaw Cynllunio perthnasol; 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy 2019'. Mae Polisi PS 1 (Iaith a Diwylliant Cymraeg) a Pholisi PS 5 (Datblygu Cynaliadwy) yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun a chynorthwyo i gefnogi a gwella'r amodau sy'n sicrhau cymunedau cynaliadwy ffyniannus. Mae'r datganiad iaith yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar gymunedau ac yn nodi mesurau a fydd naill ai yn lliniaru effeithiau negyddol neu amddiffyn / gwella / lledaenu effeithiau cadarnhaol.

5.24 Mae'r safle'n cyflogi 35 o weithwyr lleol gyda 27 ohonynt yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, fydd y bwriad i gynyddu mewnbwn o wastraff drwy'r safle'n cynnig cyfleon gyflogaeth ychwanegol a rhagwelir bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol fychan ar y Gymraeg yn y gymuned. O ganlyniad mae'n debygol fydd datblygiad yn cadw siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol a fydd yn defnyddio'r iaith yn y gweithle.

5.25 Credir felly fod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a PS 5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

## 6. Casgliadau:

6.1 Buasai'r datblygiad a fwriedir yma'n sicrhau fod cyfleuster presennol yn cael ei diweddaru a'i ehangu fel bo modd i'r cwmni i ddidoli a phrosesu deunyddiau'n gynaliadwy a chyfrannu at gyrraedd targedau'r Cynulliad i ddargyfeirio gwastraff o dirlenwi ac yn sicrhau cyflogaeth ar gyfer 35 o weithwyr presennol.

6.2 Mae'r safle'n cyfrannu at yr isadeiledd i gynnal neu ychwanegu at yr ystod o gyfleusterau rheoli gwastraff addas. Mae Polisi GWA 2 (Rheoli Gwastraff a Safleoedd a Dynodwyd) yn nodi y dylid cymeradwyo cynigion rheoli gwastraff ar safleoedd priodol ar yr amod bod y cynnig yn unol â'r hierarchaeth wastraff a bod angen amlwg am y datblygiad a gefnogir gan Asesiad Cynllunio Gwastraff. Credir fod yr Asesiad Cynllunio Gwastraff a gyflwynwyd gyda'r cais yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig ac y prif fater yma yw defnydd y safle ar gyfer gweithgareddau didoli, storio a phentyrru deunyddiau gwastraff. Mae'r cais yma'n cydymffurfio â pholisi GWA 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer cyfleuster fuasai'n cyfrannu at yr hyn mae'r ardal yn ei ailgylchu a lleihau'r gwastraff sydd yn cael ei dirlenwi.

6.3 Wedi ystyried y cyfan o'r materion uchod ystyrir bod y datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor ac yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS22 & GWA2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026. Rhaid cynyddu'n sylweddol yr hynny o wastraff sydd i'w drin mewn modd cynaliadwy os am gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru; a lleihau'r canran o wastraff sydd yn cael dirlenwi yng Ngwynedd. Buasai'r datblygiad yma yn cyfrannu at wella'r rhwydwaith o gyfleusterau gwastraff cynaliadwy yn y Sir y unol ag anghenion GWA 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026;

6.4 Ni fuasai unrhyw effaith andwyol ar ddefnyddwyr y rhwydwaith ffyrdd presennol. Credir felly fod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi TRA 4 (rheoli effeithiau trafnidiaeth), a Pholisi TRA 2 (safonau parcio) o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 ond hefyd, maen prawf 5 Polisi PCYFF 3 (dyluniad a siapio lle).

6.5 Ni fydd unrhyw newid ar fwynderau gweledol yr ardal yn y tymor hir, ac mae felly'n cydymffurfio â gofynion Polisi PCYFF 3 (dylunio a siapio lleoedd).

6.6 Ni fuasai gweithgareddau'r datblygiad yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau preswyl yr ardal yn ddarostyngedig i amodau i sicrhau gosod rhwystrau sŵn o amgylch y safle a bod oll weithgareddau prosesu a didoli gwastraff yn cael eu gweithredu yn unol ag amodau cynllunio i reoli effeithiau sŵn a llwch yn unol â Pholisiau GWA 2 & PCYFF 2.

6.7 Yn unol â'r mesuriadau sydd wedi'u hamlinellu yn y datganiad iaith, credir fod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a PS 5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026,

7. Argymhelliad:

7.1 I gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 8 ar ganiatâd cynllunio C08A/0209/14/LL er mwyn cynyddu'r uchafswm mewnbwn flynyddol o wastraff i 125,000 tunnell ar gyfradd uchaf o 1,200 tunnell y dydd a dim mwy na 2,800 tunnell yr wythnos i:

7. *Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw yr awdurdod cynllunio gwastraff ni chaniateir symud mwy na 125,000 tunnell o wastraff tŷ, masnachol a diwydiannol sych solet drwy'r orsaf trosglwyddo gwastraff mewn blwyddyn ar uchafswm raddfa o 1,200 tunnell y diwrnod a dim mwy na 2,800 tunnell yr wythnos. Rhaid gofalu y bydd ffigyrau o'r gwastraff yn mynd drwy'r safle dros unrhyw gyfnod penodedig ar gael i'r awdurdod cynllunio gwastraff, ar gais, o fewn 21 diwrnod.*

- Adolygu amodau monitro a rheolaeth Sŵn, Llwch, Arogleuon, sbwriel yn unol â'r manylion lliniaru a gyflwynwyd.